

Penblwydd Hapus CWM yn 40!


Yr wythnos diwethaf cawsom ein cyflwyno gan y Parch Dafydd Andrew Jones i'r Gymdeithas Genhadaeth Fyd-eang (CWM) ei weledigaeth a'i wasanaeth a sut y daeth EBC yn

rhan o'r Gymdeithas. Y tro hwn, a'r tro nesaf, cawn ein tywys ganddo i adnabod rhai o'r manteision a ddaeth i'n rhan dros y ddeugain mlynedd diwethaf trwy CWM

Wrth fwrw golwg dros y blynyddoedd daw pedwar cylch o fendithion yn brofiad newydd i'r Cyfundeb.

Ysbrydoledd

Yn gyntaf pwyslais CWM ar **ysbrydoledd**. Er mai o'r cyff Diwygiedig y tarddai mwyafrif eglwysi CWM (roedd ffrwd Anglicanaidd yn Eglwysi Unedig India) mi roedd o fewn y teulu gryn amrywiaeth cyd-destunol mewn addoli i'w ganfod mewn myfyrdodau, gweddiâu a phregethau, mewn cerddoriaeth a dawn, rhai yn llai ffurfiol eraill yn fwy lliwgar. Nid yn unig y cafodd y rhai o'n plith fu'n rhan o strwythurau CWM brofiad ehangach o addoli ond cynhyrchwyd fideos a chasetiau o ddigwyddiadau penodol i'w rhannu â'r teulu ehangach. Cynhyrchwyd casgliadau o emynau a thonau yn adlewyrchu'r cyfoeth hwn ac yn y cylchgrawn Newshare (Insideout yn



ddiweddarach) cynhwyswyd deunydd addoli i'r teulu cyfan. Ar drothwy'r mileniwm cyhoeddwyd hefyd deunydd addoli, myfyrdod a chenhadu yn cynrychioli ein cysylltiadau byd-eang gan Geoffrey Duncan ar ran Adran Ewrop. A chyhoeddwyd yn flynyddol lawlyfr Gweddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth gwrs, nid pob eglwys o fewn y Cyfundeb ddefnyddiai'r adnoddau rhain ond nid anfynech y clywn werthfawrogi arnynt. Gall addoli uno Cristnogion o bob cefndir a phwyslais gan gyfoethogi pawb yn ddiwahân.

Y Pwyslais Lleol

Er mai cenhadaeth fyd-eang yw maes CWM a bod rhai polisïau megis *Cyfiawnder, Heddwch a Chyfanrwydd y Greadigaeth* (JPIC) yn faterion cyffredin a pherthnasol i bob cyfandir, eto

(parhad ar dudalen 2)

Y Dŵr Bywiol

(Adroddiad o Encil y Weinidogaeth Iacháu, Trefeca 5- 8 fed Medi 2017)

O! Biti na fuasech chi yno! Oni fuasech chi wedi cael eich cyffwrdd gan yr Ysbryd Glân buasech wedi'ch cyffwrdd gan gyfraniad didwyll arbennig pob un a gymerodd ran. Pobl gyffredin yn cyflawni'r anghyffredin – ydy o'n swinio'n gyfarwydd i chi? Pa mor aml y mae hyn yn gorfod digwydd cyn y mae pobl yn derbyn mai llaw yr Arglwydd sydd ar waith?

Y "Dŵr Bywiol" oedd thema'r Encil eleni, a do, fe grybwyllwyd y wraig o Samaria ger ffynnon Jacob nifer o weithiau. Ond, fe gawsom ein tywys i gyfeiriadau mor wahanol – o'r angen am ddŵr glân i yfed a byw'n feunyddiol hyd at y dŵr a ddefnyddiodd ein Harglwydd Iesu Grist i olchi traed y disgyblion – fe ddychwelaf at y "dŵr budr" yna eto.

Cawsom ein tywys i lan môr glaniad y brodyr cyntaf ar Ynys Iona ple'r oedd un o'r criw, sef y Dr. Peter Ashton, sydd yn fy atgoffa o'r "disgybl annwyl" pob tro y byddaf yn ei gwmni, wedi bod yn casglu cerrig gyda'i wraig Jean a'r teulu. Jean arall, sef Jean Davies, ein "mam ni oll" yn y Weinidogaeth Iacháu a gymerodd y Myfyrdod yma. Hi ydi'r "main spring" yn yr



Rhai o'r criw ddaeth ynghyd i'r encil eleni. Mae rhai yn absennol o'r llun!

Encil arbennig yma er ei bod hi yn ei "hoed a'i hamser" mae hi'n berson o allu rhyfeddol. Biti na fuasai fy nghof i hanner cystal!

(parhad ar dudalen 8)

Cilycwm a Phantycelyn – fe lif yr Ysbryd ble y myn

Ar ddydd Mercher, 20fed o Fedi 2017 cyflwynodd Tim Hodgins o Bort Talbot a minnau ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i goffau tri chan mlwyddiant geni'r Pêr Ganiedydd, William Williams, Pantycelyn.

Ar ddiwedd y broses hon, teimlad o werthfawrogiad dwfn sydd gen i a diolchgarwch mod i wedi cael treulio ychydig o amser yn dysgu mwy am y cawr hwn, a'i gyfraniad rhyfeddol i fywyd cenedlaethol Cymru.

Emynydd, bardd, awdur, efenglydd, teithiwr, trefnydd, cwnselydd- a gafwyd yn wir unigolyn mwy dylanwadol na'r Hen Bant yng Nghymru dros y canrifoedd diwethaf?

Yr hyn a'm synnodd oedd cymaint o anwybodaeth sydd ymhlith aelodau'n heglwys am gampau Pantycelyn, a'r ffaith ei fod cymaint mwy nag emynydd yn unig. Dyna un o'r elfennau a'm hysgogodd i gychwyn y ddeiseb mewn gwirionedd, gan wybod cymaint mwy byddai'r anwybodaeth ymhlith trwch poblogaeth Cymru amdano, os mai annigonol yn wir oedd hyd a lled gwybodaeth dilynwyd y ffydd yma.

Gobaith Tim a finnau ydi y bydd y bron i 1,500 o lofnodion sydd wedi eu casglu ar y ddeiseb yn fodd i berswadio'r Llywodraeth y dylid gwneud yn iawn am yr amnesia hanesyddol difrifol hwn a choffau Pantycelyn mewn modd priodol. A hynny, er mwyn i bobl Cymru gael gwybod amdano a'i gyfraniad a dysgu mwy am eu hanes eu hunain yn y broses.

Mae'n rhyfedd hefyd sut y mae ymgyrchoedd fel hyn yn gallu magu traed a datblygu ryw fywyd newydd ohonynt eu hunain.

Dydd Sadwrn diwethaf, penderfynodd Tim a finnau a ffrind arall inni o Gaerdydd, Dafydd Williams, gynnal taith gerdded yn ardal Llanymddyfri fel un ymdrech olaf cyn cyflwyno'r ddeiseb i'r gwleidyddion yng Nghaerdydd.

Roeddau ni am ymglywed gyda'r hyn yr oedd yr ysbryd yn ei ddweud wrthon ni yn ardal enedigol Williams ei hun a hynny ar daith gerdded o Lanymddyfri i fyny i Gilycwm, lle'r oedd y dyn mawr yn aelod yn eglwys Tŷ Newydd. Cawsom wybod hefyd bod yna aelodau o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gweddïo drosom wrth inni fynd ar ein taith gerdded.

Mae'n ardal hynod hardd a hynny'n sicr o fod wedi ysbrydoli Williams wrth iddo fynd ati i gyfansoddi ei holl emynau ac yntau'n gweld harddwch y greadigaeth yn fynegiant allanol o harddwch Duw ei hun.

Hardd neu beidio, roeddau ni ar goll yn llwyr yng Nghilycwm a dim syniad ble i chwilio am hen gapel William Williams! Ar yr amrantiad hwnnw, pwy ddaeth i'r adwy ond Mr Christopher Jones, a fynnodd yn garedig iawn roi lifft inni yn ei gar tuag at gapel Tŷ Newydd, sawl milltir i ffwrdd.

Yn ystod y daith at yr eglwys, mi soniodd Mr Jones am ddarlith oedd i'w chynnal yn ardal gyfagos Cyngordy ar y Nos Lun, a hynny i drafod bywyd a gwaith Pantycelyn.



Roedd Mr Jones hefyd yn adnabod y siaradwr y noson honno, sef y Parch Dr Wynford Thomas ac yn gallu ein cyfeirio at ei gartref newydd sbon yn Llanymddyfri yr oedd newydd symud iddo yn ddiweddar!

Wedi i Tim a finnau guro ar ddrws Dr. Thomas, roedd yntau'n barod iawn i'n helpu gyda'r ddeiseb gan gynniig cyflwyno taflenni'r ddeiseb i'w harwyddo yn ystod y cyfarfod- gan amcangyfrif y gallai hynny ychwanegu tua 100 o enwau at ein deiseb.

A rhaid peidio anghofio cyfraniad Michael O'Shea chwaith- roedd y siopwr hwn yn fodlon iawn i'n helpu hefyd gan gyfrannu amlen fawr a stamp am ddim, fel bo modd i Dr. Thomas ddanfoni y llofnodion ymlaen at swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghaerdydd erbyn dydd Mercher.

I mi, nid cyd-ddigwyddiadau ffortunos oedd y rhain. Ceisio wyneb Duw oeddau ni wrth gynnal y daith gerdded hon mewn gwirionedd. Ceisio gweld beth y mae o am inni ei wneud yng Nghymru heddiw ac yfory. Mae'r ceisio hwn wastad yn arwain at fendithion ar lefel yr unigolyn ac ar lefel y gymdeithas.

"Galwa arnaf ac fe atebaf, ac fe ddangosaf iti bethau dirgel a rhyfeddol na wyddost ti amdanynt". Jeremeia 33.3.

Falle'n wir mai dim ond 7% sy'n mynd i'n heglwys heddiw. Ond anghofiwch yr ystadegau moel hynny. Mae Cymru'n para'n wlad ysbrydol iawn er gwaetha popeth.

Falle bod yr ysbryd wedi llifo allan o'n heglwys i ei gilydd heddiw. Ond mae'r ysbryd yn gorwedd yn ein tir ac yn ein pobl yn paratoi ar gyfer tywalltiad newydd a nerthol iawn cyn bo hir.

Nid diwygiad ond adfywiad y tro hwn. Adfywiad all ein rhyddhau'n feddyliol, yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn wleidyddol.

Aled Gwyn Job

Penblwydd Hapus CWM yn 40! (parhad o dudalen 1)

pwyslais y Cyngor yw ar gefnogi pob Eglwys yn ei chenhadaeth o fewn ei chyd-destun ei hunan oblegid mai hi yw Corff Crist yn y fan honno. Digwydd cenhadaeth felly mewn cyd-destun sy'n amrywio: nid yr un yw gorthrwm tlodi Affrica a moethusrwydd seciwlar Ewrop neu fwrllwm byrlymus rhai o ddinasoedd y Dwyrain. Nid rhyfedd i Christopher Duraisingh pan yn Ysgrifennydd Cyffredinol gychwyn proses o alluogi cynulleidfaoedd lleol mewn cenhadaeth: tebyg fyddai'r egwyddorion ond gwahanol y mynegiant ohonynt. Roedd hyn yn cyd-fynd â rhaglen *Hyfforddi mewn Cenhadu* EBC a thrwy gyfryngau cyfathrebu CWM rhennid adnoddau megis *Dilyn Cenhadaeth* ar phrofiadau ar draws y teulu cyfan.

Ar adegau cafwyd cyfle i gydsefyll â'n gilydd megis pan garcharwyd Dr Kao, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys

Taiwan, am iddo ef sefyll dros hawliau dynol ar yr ynys honno neu ar adegau o argyfwng dynol neu naturiol o fewn y teulu. Mae'r byd-eang yn gasgliad o'r lleol a'r ddau bersbectif yn gysylltiedig â'i gilydd ym mwriadau'r Duw Byw. Mae'r ymwneud hyn yn meithrin perthynas, yn creu ymddiriedaeth a dealltwriaeth ar sail ymrwymiad ar y cyd i ledaenu'r wybodaeth o gariad Duw y Crëwr, yng Nghrist ac yng ngrwm yr Ysbryd ledled ei fyd.

(I'w barhau)

